Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

## Crynodeb o'r darpariaethau

Mawrth 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7536**
E-bost: **Francesca.Howorth@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Crynodeb o'r darpariaethau

Mawrth 2023

**Awdur:**
Francesca Howorth

Ar 20 Mawrth 2023, cyflwynodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS, Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) i'r Senedd. Mae'r papur briffio hwn yn rhoi crynodeb o ddarpariaethau'r Bil.

# Cynnwys

**Rhan 1 – Ansawdd Aer ........ 1**

Targedau Ansawdd Aer ........ 1

Strategaeth ansawdd aer genedlaethol ........ 2

Rheoliadau ansawdd aer ........ 3

Rheoli ansawdd aer yn lleol ........ 3

Rheoli mwg ........ 4

Allyriadau cerbydau ........ 5

**Rhan 2: Seinweddau ........ 6**

Strategaeth seinweddau genedlaethol ........ 6

**Rhan 3- Cyffredinol ........ 8**

# Rhan 1 – Ansawdd Aer

Mae **Pennod 1** yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith i osod, adolygu ac adrodd ar dargedau ansawdd aer cenedlaethol ar gyfer Cymru, a fydd yn gymwys yn ogystal â'r ddeddfwriaeth bresennol yn y maes hwn. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targed mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o PM2.5 mewn aer amgylchynol yng Nghymru.

## Targedau Ansawdd Aer

Mae **Adran 1 (Targedau ansawdd aer: cyffredinol)** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Rhaid i darged a osodir o dan y rheoliadau hyn bennu safon i'w chyflawni, y mae'n rhaid gallu ei mesur yn wrthrychol, a dyddiad erbyn pryd y mae'r safon i'w chyflawni.

Mae **Adran 2 (Targedau ansawdd aer: deunydd gronynnol)** yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod o leiaf un targed, mewn rheoliadau, mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o $PM^{2.5}$ yn yr aer amgylchynol yng Nghymru. Caiff rheoliadau sy'n gosod targedau o'r fath ddiffinio "aer amgylchynol."

Mae **Adran 3 (Y broses o gosod targedau)** yn nodi'r broses y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn gosod, diwygio neu ddirymu targed ansawdd aer hirdymor o dan Adran 1, a chyn gosod neu ddiwygio targed $PM^{2.5}$ o dan Adran 2. Ni ellir dirymu targed $PM^{2.5}$ drwy reoliadau a wneir o dan Adran 2. Cyn gwneud rheoliadau o dan Adran 1 neu 2, rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan arbenigwyr annibynnol a rhoi sylw i wybodaeth wyddonol ynghylch llygredd aer. Mae is-adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau y maent yn fodlon y gellir eu cyrraedd. Mae is-adrannau 3 i 6 yn nodi'r broses y mae'n rhaid ei dilyn i ddirymu neu ostwng targed a osodwyd o dan Adran 1 neu 2. Ni chaiff Gweinidogion Cymru ddirymu neu ostwng targed sy'n bodoli eisoes oni bai eu bod yn fodlon ynghylch y canlynol:

i. ni fyddai unrhyw fudd sylweddol yn gysylltiedig â chyrraedd y targed o gymharu â pheidio â'i gyrraedd, neu gyrraedd targed is; neu
ii. yn sgil newidiadau mewn amgylchiadau ers gosod y targed presennol neu ei ddiwygio ddiwethaf y byddai costau amgylcheddol, costau cymdeithasol, costau economaidd neu gostau eraill cyflawni'r targed yn anghymesur â'r buddion.

Mae **Adran 4 (Effaith targedau)** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod targedau hirdymor o dan Adran 1 a 2 yn cael eu cyrraedd.

Mae **Adran 5 (Adrodd ar dargedau)** yn nodi'r dyletswyddau adrodd a osodir ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â thargedau hirdymor a osodir o dan Adran 1 a 2. Rhaid i reoliadau a wneir o dan Adran 1 a 2 gynnwys dyddiad adrodd ar gyfer targedau. Ar y dyddiad adrodd neu cyn hynny, rhaid i Weinidogion Cymru osod un o dri datganiad gerbron y Senedd:

- datganiad bod y targed wedi ei gyflawni;
- datganiad bod y targed heb ei gyflawni; neu
- datganiad na all Gweinidogion Cymru benderfynu a yw'r targed wedi'i gyflawni, gan esbonio pam nad ydynt wedi gallu gwneud y penderfyniad hwn.

Pan fo Gweinidogion Cymru yn gosod adroddiad yn nodi pam na chyrhaeddwyd y targed, rhaid iddynt, o fewn 12 mis i osod yr adroddiad, nodi pa gamau y maent wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd, i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei gyrraedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol..

Mae **Adran 6 (Adolygu targedau)** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu targedau o dan Adran 1 a 2, gan geisio cyngor gan arbenigwyr annibynnol a chan roi sylw i wybodaeth wyddonol am lygredd aer. Unwaith y bydd Gweinidogion Cymru wedi cynnal adolygiad, rhaid iddynt gyhoeddi eu cyllid gan nodi pa gamau, os o gwbl, y maent yn bwriadu eu cymryd yn sgil yr adolygiad.

Mae **Adran 7 (Monitro hynt cyflawni targedau)** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer cael data o'r fath am ansawdd aer yng Nghymru y maent yn ystyried eu bod yn briodol i fonitro cynnydd tuag at gyrraedd targedau Adran 1 a 2 ac yna rhaid iddynt gyhoeddi'r data hynny.

**Pennod 2: Darpariaethau eraill**

Mae **Adran 8 (Hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer)** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth yng Nghymru o'r risgiau i iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol a achosir gan lygredd aer, a ffyrdd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

## Strategaeth ansawdd aer genedlaethol

Mae **Adran 9 (Strategaeth ansawdd aer genedlaethol: pŵer i newid cyfnod adolygu'r strategaeth)** yn mewnosod is-adran (8) newydd yn adran 80 o Ddeddf

yr Amgylchedd 1995. Mae hyn yn rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer y strategaeth ansawdd aer genedlaethol. Bydd unrhyw reoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Mae **Adran 10 (Ymgynghori wrth adolygu'r strategaeth)** yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol, ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, pob awdurdod lleol yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru, a'r cyhoedd.

Mae **Adran 11 (Dyletswydd i roi sylw i'r strategaeth)** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol roi sylw i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar ansawdd aer yng Nghymru. O dan is-adrannau (2) a (3) mae person yn "awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol" os yw wedi ei ddynodi felly gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person y cynigir ei ddynodi'n "awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol" ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol y mae'n rhaid iddynt hwy yn eu tro roi sylw iddynt.

## Rheoliadau ansawdd aer

Mae **Adran 12 (Rheoliadau ansawdd aer: ymgynghori)** yn datgymhwyso'r gofynion ymgynghori yn is-adran (7) o Adran 87 o Ddeddf 1995, ac yn rhoi gofynion newydd yn eu lle. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 4 o Ddeddf 1995, ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, pob awdurdod lleol yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, pob bwrdd iechyd lleol, a'r cyhoedd.

## Rheoli ansawdd aer yn lleol

Mae **Adran 13 (Adolygiadau ansawdd aer gan awdurdodau lleol)** yn mewnosod is-adran newydd yn Neddf 1995 i'w gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal adolygiad ansawdd aer bob blwyddyn galendr, yn hytrach nag o bryd i'w gilydd.

Mae **Adran 14 (Cynlluniau gweithredu mewn perthynas ag ardaloedd rheoli ansawdd aer)** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi cynllun gweithredu mewn perthynas ag ardal ddynodedig ac anfon copi at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Nid yw'r cynllun yn dod i rym oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Rhaid i bob safon ac amcan yn y cynllun gael dyddiad erbyn pryd y bydd wedi'i gyflawni. Rhaid i'r cynllun hefyd nodi sut y bydd safonau ac amcanion yn cael eu cynnal ar ôl eu cyflawni. Caiff awdurdod lleol ddiwygio cynllun gweithredu ar unrhyw adeg, a rhaid i unrhyw ddiwygiadau gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn dod yn weithredol.

Mae **Adran 15 (pwerau cyfarwyddo Gweinidogion Cymru)** yn nodi, os yw awdurdod lleol wedi methu â chyflawni mesur yn y cynllun gweithredu erbyn y dyddiad a bennir, y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod lleol i gymryd camau penodol. Yn yr un modd, os na chyflawnir safon neu amcan ansawdd aer, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod lleol i gymryd camau penodol.

## Rheoli mwg

Mae **Adran 16 (Rheoli mwg: rheoleiddio mwg a thanwydd mewn ardaloedd rheoli mwg)** yn mewnosod adrannau newydd yn Neddf Aer Glân 1993. Mae'r newidiadau'n cyflwyno cosbau sifil mewn perthynas â throseddau amrywiol sy'n ymwneud ag allyriadau mwg heb awdurdod mewn ardaloedd rheoli mwg. Mae'r troseddau yn adran 20 o Ddeddf 1993 wedi eu diddymu o ran Cymru.

**Rhoddir pwerau newydd hefyd i Weinidogion Cymru atal dros dro neu lacio'r cosbau sifil os ystyrir bod hyn yn fanteisiol neu'n angenrheidiol ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol perthnasol.**

Mae **Adran 17 (Canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas ag ardaloedd rheoli mwg)** yn diwygio Deddf 1993, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 3 o Ddeddf 1993 (rheoli ac atal llygredd aer gan fwg ac allyriadau eraill cysylltiedig).

Mae **Adran 18 (Darpariaeth bellach sy'n ymwneud â rheoli mwg)** yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Bil, sy'n gwneud darpariaethau pellach mewn perthynas â rheoli mwg.

**Atodlen 1.** Mae Rhan 1 yn gwneud diwygiadau i Atodlen 1A o Ddeddf 1993 i ganiatáu i'r gyfundrefn sancsiynau sifil yn yr Atodlen honno fod yn gymwys i Gymru. Mae Rhan 2 yn gwneud diwygiadau eraill i Ddeddf 1993 o ganlyniad i'r ddarpariaeth a wneir gan Ran 1, a chan adrannau 16 a 17 o'r Bil.

## Allyriadau cerbydau

Mae **Adran 19 (Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd)** yn ymestyn pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd yng Nghymru, i alluogi cynlluniau at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer yng nghyffiniau'r ffordd honno. Mae pŵer presennol Gweinidogion Cymru i wneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd gan Adran 167(2) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i amgylchiadau pan fo'r ffordd y bwriedir sefydlu'r cynllun codi tâl arni yn cael ei chario gan bont, neu'n mynd drwy dwnnel (o leiaf 600m o hyd), neu pan fo awdurdodau traffig penodol eraill yn gofyn am greu cynllun ar y cyd i godi tâl.

Mae **Adran 20 (Darpariaeth bellach sy'n ymwneud â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd)** yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer, ac mewn cysylltiad â, chymhwyso'r enillion o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wneir at ddiben lleihau llygredd aer neu gyfyngu arno

Mae **Atodlen 2** o'r Bil yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 12 o Ddeddf 2000 (darpariaeth ariannol ynghylch cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd). Mae paragraff 13 i Atodlen 12 o Ddeddf 2000 yn gwneud darpariaeth ynghylch enillion cynlluniau a wneir gan Weinidogion Cymru i godi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o dan adran 167(2) o Ddeddf 2000. Mae paragraffau 4, 5 a 6 o Atodlen 2 yn diwygio paragraff 13 o Atodlen 12, ac yn mewnosod paragraffau 14 a 15 newydd mewn cysylltiad â chynlluniau a wneir gan Weinidogion Cymru i godi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd. Mae'r diwygiadau hyn a darpariaethau newydd yn golygu:

- Os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud cynllun i godi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o dan adran 167(3) o Ddeddf 2000, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer, mae paragraff 14 newydd o Atodlen 12 i Ddeddf 2000 yn gymwys i'r cynllun hwnnw. Mae paragraff 14 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad yn y Senedd yn nodi'r enillion net amcangyfrifedig o'r cynllun, sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio eu cyfran o'r enillion net ac asesiad o effaith y cynigion ar ansawdd aer, os oes effaith.
- Os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud cynllun i godi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd nad yw'n gyfan gwbl neu'n rhannol at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer, mae paragraff 15 newydd o Atodlen 12 i Ddeddf 2000 yn gymwys i'r cynllun hwnnw. Mae paragraff 15 yn cyfyngu ar y defnydd o gyfran Gweinidogion Cymru o enillion net cynllun codi tâl i bolisïau neu gynigion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Lle na chaiff cynllun ei wneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol at

ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer ac mae'r ffordd yn cael ei chario gan bont, neu'n mynd drwy dwnnel (o leiaf 600m o hyd), mae'r neilltuad trafnidiaeth yn gymwys am ddeng mlynedd. Mae paragraff 15 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i:

- benderfynu pryd yr ystyrir bod cynllun yn dod i rym at ddibenion penderfynu pryd mae'r cyfnod hwn o ddeng mlynedd yn dechrau neu'n dod i ben;
- penderfynu sut y dylid defnyddio enillion net ar ôl i'r cyfnod o ddeng mlynedd ddod i ben;
- cynyddu'r cyfnod o ddeng mlynedd.

Mae **Adran 21 (Trosedd segura llonydd: cosb benodedig)** yn diwygio ac yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf 1995, fel y gall Gweinidogion Cymru, yn achos trosedd segura llonydd, ragnodi ystod ariannol ar gyfer pennu swm y gosb.

Diffinnir "stationary driving offence" (trosedd segura llonydd) yn adran 42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 ac mae'n gwahardd gadael eich injan ymlaen pan nad oes ei hangen.

# Rhan 2: Seinweddau

## Strategaeth seinweddau genedlaethol

Cyn y Bil, nid oedd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau. Mae'r Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru lunio a mabwysiadu mapiau sŵn strategol a llunio cynlluniau gweithredu ar sŵn, ac yn rhagnodi'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gynnwys. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau a all ymgorffori'r mapiau sŵn strategol a'r cynlluniau gweithredu ar sŵn sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2006.

**Adran 22 (Strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau):**

- Mae **Isadran 1** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth genedlaethol yn cynnwys eu polisïau mewn perthynas ag asesu a rheoli seinweddau yng Nghymru;
- Mae **Isadran 2** yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth gynnwys polisïau ar gyfer asesu a gostwng lefelau llygredd sŵn;

- Mae **Is-adran 3** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru barhau i adolygu'r polisïau hyn;
- Mae **Is-adran 4** yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r strategaeth;
- Mae **Is-adran 5** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu, ac os yw'n briodol, addasu'r strategaeth o fewn pum mlynedd i'w chyhoeddi, ac o fewn pob cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y cwblhawyd yr adolygiad diwethaf;
- Mae **Is-adran 6** yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i wybodaeth wyddonol sy'n berthnasol i seinweddau a'r mapiau sŵn strategol diweddaraf. Rhaid iddynt hefyd ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, pob awdurdod lleol yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, pob bwrdd iechyd lleol, a'r cyhoedd wrth lunio neu adolygu'r strategaeth;
- Mae **Is-adran 7** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r cyfnodau adolygu yn is-adran 5;
- Mae **Is-adran 8** yn darparu y gellir trin strategaeth bresennol sy'n bodloni gofynion is-adrannau 1 a 2 fel y strategaeth a baratoir ac a gyhoeddir o dan is-adran 1;
- Mae **Is-adran 9** yn diffinio awdurdod lleol at ddibenion yr adran hon ac adran 23 o'r Bil fel cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Mae **Adran 23 (Dyletswydd i roi sylw i strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau):** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol roi sylw i'r polisïau yn y strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar seinweddau yng Nghymru. O dan is-adrannau 2 a 3 mae person yn "awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol" os yw wedi ei ddynodi felly gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran 3, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person y cynigir ei ddynodi'n "awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol" ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Mae **Adran 24 (Pŵer i newid cylchoedd ar gyfer gwneud mapiau sŵn strategol ac adolygu cynlluniau gweithredu ar sŵn)** yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i newid yr ysbeidiau y mae'n rhaid gwneud a mabwysiadu mapiau sŵn strategol arnynt, a newid yr ysbeidiau y mae'n rhaid cynnal adolygiadau o gynlluniau gweithredu ar sŵn arnynt o dan Reoliadau 2006.

# Rhan 3- Cyffredinol

Mae **Adran 25 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.)** yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth atodol, ddeilliadol, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil neu oddi tano, gan gynnwys mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil.

Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 25 sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Mae **Adran 26 (Rheoliadau)** yn egluro sut y dylid arfer pwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil, ac yn nodi'r weithdrefn gymwys i'w dilyn wrth wneud y rheoliadau hynny.

Mae **Adran 27 (Dod i rym)** yn nodi sut y daw darpariaethau'r Bil i rym. Daw'r darpariaethau yn Rhan 3 i rym ar y diwrnod ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Daw adrannau 1-6, 8-12, 19-24 ac Atodlen 2 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y diwrnod y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol. Daw'r darpariaethau eraill i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.